**Hawliau Plant Cymru**
Cymru

**Children's Rights Wales**

# CCUHP

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


## Cyflwyniad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



# Beth yw CCUHP?

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yw CCUHP. Rhestr ydyw o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc, pwy bynnag yr ydych chi, lle bynnag rydych chi'n byw neu beth bynnag rydych chi'n credu ynddo. Maen nhw'n berthnasol i chi nes eich bod chi'n 18 oed.

Mae CCUHP yn rhestru 54 o erthyglau – hawliau sydd gan blant a phobl ifanc i fod yn ddiogel, yn iach ac yn hapus. Fe gymeron ni bob un o'r hawliau yn CCUHP a'u trefnu nhw mewn 7 maes gwahanol, o'r enw Y Saith Nod Craidd.



**Blynyddoedd cynnar**

Mae gen i bopeth sydd ei angen arna' i i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i mi!



**Addysg a dysgu**

Dwi'n gallu cymryd rhan, mwynhau dysgu a chael yr addysg orau bosibl.



**Iechyd,rhyddid rhag camdriniaeth a bwlio**

Mae gen i fywyd iach ym mhob agwedd, gan gynnwys iechyd emosiynol, a dwi'n cael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed neu gamdriniaeth.



**Chwarae, chwaraeon, hamdden a diwylliant**

Dwi'n mwynhau chwarae ac yn cael cyfleoedd i fwynhau chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol efo fy ffrindiau.



**Cyfranogiad a pharch**

Dwi'n cael dweud fy nweud ac yn cael fy nhrin â pharch.



**Cartref diogel a chymuned ddiogel**

Mae fy nghartref yn lle diogel i fyw ynddo ac mae gen i lawer o bethau i'w gwneud sy'n agos at lle dwi'n byw.



**Rhyddid rhag tlodi**

Dydw i ddim yn gorfod byw mewn tlodi ac mae gennym ddigon o arian i gael y pethau sydd eu hangen arnom ni.



## CCUHP yng Nghymru

Yn 2011, gwnaethom ni benderfynu cymryd cam ychwanegol a gwneud CCUHP yn gyfraith yng Nghymru.
Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yw'r enw ar y gyfraith hon. Mae'r Mesur wedi newid ein ffordd o weithio. Mae'n golygu bod yn rhaid i ni ystyried hawliau plant ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

# Pwy yw Llywodraeth Cymru a beth y mae'n ei wneud?


Mae gan Gymru ei llywodraeth ei hun sy'n gweithio i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio. Ein nod yw bod yn agored ac yn ymatebol i anghenion dinasyddion a chymunedau. Rydyn ni'n gyfrifol am y mwyafrif o'r prif agweddau o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys:

- Addysg
- Cynghorau Lleol
- Yr Iaith Gymraeg
- Cynllunio
- Diwylliant
- Yr Amgylchedd
- Trafnidiaeth
- Iechyd

Gyda swyddfeydd ar draws Cymru, gan gynnwys Merthyr Tudful, Aberystwyth, Cyffordd Llandudno a Chaerdydd.

**Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc allu chwarae rhan, cyfranogi a dweud eu dweud.**

## Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys:




1. **Y Prif Weinidog**
   sef pennaeth Llywodraeth Cymru
2. **Gweinidogion Cymru**
   y mae'r Prif Weinidog yn eu penodi, pob un â maes cyfrifoldeb gwahanol
3. **Dirprwy Weinidogion**
   sy'n cwblhau meysydd penodol o waith ar ran y Gweinidogion
4. **Llawer o staff**
   sy'n gweithio i gefnogi Gweinidogion
5. **Y Cwnsler Cyffredinol**
   sy'n rhoi cyngor cyfreithiol i'r Llywodraeth

# Sut mae Llywodraeth Cymru'n helpu plant a phobl ifanc i gael llais a chwarae rhan?

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthon ni eu bod nhw eisiau chwarae rhan mewn ffyrdd gwahanol, weithiau wyneb yn wyneb, weithiau ar-lein, weithiau ar eu pennau eu hunain ac weithiau mewn grwpiau. Mae'n bwysig bod pawb yn gallu dewis beth sydd orau iddyn nhw ac rydyn ni'n gweithio i roi'r opsiynau yma ichi.

### Rydyn ni'n darparu cyfleoedd i chwarae rhan

Er enghraifft, trwy gael:

- Gwybodaeth eglur a hawdd i'w deall
- Digwyddiadau ymgynghori
- Fforymau
- Holiaduron ar-lein
- Gwefannau
- Gweithdai
- Twitter

### Rydyn ni'n gwneud cyfreithiau

Mae hyn yn helpu plant a phobl ifanc i gael eu hawl i chwarae rhan. Er enghraifft:

- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n dweud bod yn rhaid i bob un o Weinidogion Cymru yn Llywodraeth Cymru feddwl am hawliau plant, gan gynnwys eu hawl i gael llais, wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 sy'n dweud wrth Awdurdodau Lleol bod yn rhaid iddyn nhw roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae rhan.

### Rydyn ni'n gweithio gydag eraill

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod y pethau rydyn ni'n eu gwneud yn ychwanegu at, ond nid yn copïo, gweithgareddau cyfranogi:

- Senedd Cymru www.senedd.cymru
- Mudiadau gwirfoddol
- Cynghorau Ysgol a Fforymau Ieuenctid Lleol
- Comisiynydd Plant Cymru

### Rydyn ni'n ariannu ac yn cefnogi cyfranogiad mewn gwahanol ffyrdd

Er enghraifft, rydyn ni'n darparu cyllid ar gyfer:

- 'Cymru Ifanc'
- 'Meic'
- Comisiynydd Plant Cymru

### Rydyn ni'n rhoi gwybod i bobl am hawliau plant

Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ddweud wrth:

- Blant a phobl ifanc ar draws Cymru
- Rhieni a gofalwyr
- Pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a throstyn nhw
- Pobl sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru

# **Hawliau:** Pob hawl, pob plentyn a pherson ifanc, bob amser

**Mae hawliau yn rhywbeth sydd gan bawb o ganlyniad i gael eu geni. Nid oes gan unrhyw un bŵer i'w rhoi nhw ichi, na'u cymryd nhw oddi arnoch chi. Maen nhw'n ddiamod.**

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae ganddyn nhw hawliau hefyd dan CCUHP, sef confensiwn hawliau dynol rhyngwladol y cytunodd Llywodraeth y DU arno ym 1991.

Cytundeb rhyngwladol yw CCUHP, ac mae'n gwarchod hawliau dynol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod eu hawliau dynol sylfaenol, ond mae hefyd yn rhoi hawliau ychwanegol iddyn nhw i'w diogelu nhw rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Mae'n cynnwys popeth o gael enw a chenedligrwydd i gael dŵr glân i'w yfed. Yn syml, y pethau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel yw'r rhain.

Rhestr o hawliau i bob plentyn a pherson ifanc yw CCUHP, pwy bynnag ydyn nhw, lle bynnag y maen nhw'n byw neu beth bynnag y maen nhw'n credu ynddo.

## CCUHP = Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae'n rhaid i bob Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i CCUHP, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn gwybod am CCUHP ac yn ei ddeall.

Yn ogystal â siarad am hawliau plant a phobl ifanc, mae CCUHP yn manylu ar gryn dipyn o bethau y mae angen i Lywodraethau ar hyd a lled y byd eu gwneud i gefnogi plant a phobl ifanc i fwynhau eu hawliau. Mae'r rhain yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cynifer o bobl â phosibl yn deall ac yn gwybod am hawliau ac yn cefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chael dweud eu dweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**Hawliau yw'r pethau y mae gan blant hawl iddyn nhw; anghenion yw'r pethau sydd eu hangen arnoch chi. Dylai Llywodraethau barchu hawliau plant a phobl ifanc a'u helpu nhw i wybod amdanyn nhw a'u hawlio.**

Mae **hawliau** yn gysylltiedig â **bod**, tra bo **anghenion** yn gysylltiedig â **chael**.

# CCUHP

Pan rydyn ni'n dysgu am hawliau, rydyn ni'n dysgu bod gennym ni ein hawliau ein hunain, ond bod gan bawb arall hawliau hefyd. Felly, pan rydyn ni'n mwynhau ein hawliau ein hunain, mae gennym ni ddyletswydd i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n golygu bod pobl eraill yn cael eu hawliau nhw hefyd.

Felly er enghraifft, os ydych chi'n mwynhau eich hawl i gymryd rhan mewn penderfynu ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 12) trwy gyfrannu at drafodaeth gyda 6 o bobl eraill, mae gan bob un o'r 7 hawl i ddweud eu dweud, hyd yn oed os yw eu barn yn wahanol yn y bôn i'ch barn chi.



**Yn 2011, fe benderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cymryd cam ychwanegol ac yn gwneud CCUHP yn gyfraith yng Nghymru. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yw'r enw ar y gyfraith hon.**

Mae'r Mesur wedi newid ffordd Llywodraeth Cymru o weithio. Mae'n golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud.

## Mae gan CCUHP 54 o erthyglau:

Mae'n gwarchod hawliau plant a phobl ifanc hyd at 18 oed ar hyd a lled y byd.

Mae **Erthyglau 1-41** yn manylu ar hawliau ynglŷn â sut dylid trin plant a phobl ifanc fel eu bod nhw'n ddiogel, yn iach ac yn hapus.

Mae'r 13 erthygl arall yn manylu ar sut dylai Llywodraethau ac oedolion gydweithio i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar yr hawliau hyn (42-54) a'u mwynhau.

Pethau yw'r hawliau hyn sy'n bwysig i wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc:

- ✓ **yn ddiogel**
- ✓ **nad oes unrhyw un yn camwahaniaethu yn eu herbyn**
- ✓ **bod eu budd gorau yn cael ei ddiogelu**
- ✓ **eu bod nhw'n cael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw i oroesi a datblygu**
- ✓ **eu bod nhw'n cael dweud eu dweud ynglŷn â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.**

# Mae gan CCUHP 4 prif egwyddor:

Mae yna bwyslais arbennig ar bedair erthygl, sef yr 'egwyddorion cyffredinol', oherwydd eu bod nhw wrth wraidd pob un o'r hawliau eraill wrth eu rhoi ar waith.

1

**Dim Camwahaniaethu (Erthygl 2)**
Rhaid i'r hawliau i gyd y mae CCUHP yn eu gwarantu fod ar gael i bob plentyn heb wahaniaethu o unrhyw fath.

2

**Budd Gorau'r Plentyn (Erthygl 3)**
Mae'n rhaid i fudd gorau'r plentyn fod yn brif ystyriaeth ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant.

3

**Yr Hawl i Fyw, Goroesi a Datblygu (Erthygl 6)**
Mae gan bob plentyn hawl i fyw, goroesi a datblygu.

4

**Barn y Plentyn (Erthygl 12)**
Mae gan bob plentyn hawl i gymryd rhan mewn penderfynu, cynllunio ac adolygu unrhyw weithred a allai effeithio arnyn nhw.

## Mae 3 prif thema yn berthnasol i bob un o'r erthyglau.

**Weithiau, maen nhw'n cyfeirio atyn nhw fel y "3 P" yn Saesneg.**



### Cyfranogi

Mae'r erthyglau hyn wedi'u seilio ar y syniad o'r plentyn neu'r person ifanc fel rhywun sy'n mynd ati i gyfrannu at gymdeithas fel dinesydd nawr – yn hytrach na dim ond rhywun sydd naill ai'n cael ei drin yn dda neu'n ddrwg gan bobl eraill.

### Darpariaeth

Mae'r erthyglau hyn yn cwmpasu hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu. Mae'r rhain yn amrywio o ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i addysg ac amgylchedd sy'n caniatáu i blant ddatblygu. Mae CCUHP yn eglur mai'r lle gorau i blentyn fod fel rheol yw gyda'u teulu, a bod gan y Llywodraeth ddyletswydd i gefnogi a chynorthwyo rhieni.





### Diogelu

Mae'r erthyglau hyn yn rhoi sylw i gamfanteisio ar blant a phobl ifanc yn y gwaith; cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol; camwahaniaethu a chamdriniaethau eraill y mae llawer yn dal i ddioddef ohonyn nhw, gan gynnwys rhai yn y DU. Mae CCUHP yn gofyn i Lywodraethau ddiogelu plant a phobl ifanc a, lle bo angen, darparu gwasanaeth ailsefydlu ar eu cyfer.

# Pam gwrando ar blant a phobl ifanc?

Mae Gweinidogion yn gwneud llawer o benderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru. Mae plant a phobl ifanc yn cyfrif am ryw drydydd ran o boblogaeth Cymru. Felly mae'n bwysig eich bod chi'n gallu chwarae rhan (cyfranogi) yn y modd o wneud penderfyniadau.

Ystyr cyfranogiad yw bod gennych chi'r hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnoch chi.

## Cael Llais, Cael Dewis.

## Mae un o'r hawliau yma'n ymwneud â chael llais a chael rhywun i wrando arnoch chi.

**"Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried."** **Erthygl 12 CCUHP**

**Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau. Rhestr o'ch hawliau yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).**



Gwarchod



Addysg



Iach



Cyfartal



Clywed



Diogel

# Sut olwg sydd ar gyfranogiad da?

Yng Nghymru, mae yna 7 o Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol i helpu sefydliadau ac unigolion i wneud yn siŵr bod proses, ansawdd a phrofiad o unrhyw gyfranogiad yn dda i blant a phobl ifanc.

## Mae cyfranogiad da'n gallu digwydd unrhyw le, a bydd yn cynnwys:

- **gweithgareddau –** sy'n rhoi cyfle i bawb ddysgu mwy am ei gilydd ac am sut i chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau.
- **cydbwysedd pŵer –** rhwng pobl ifanc ac oedolion, hyd yn oed os mai staff ysgol a disgyblion ydyn nhw; os mai cynghorwyr ac aelodau fforwm ieuenctid ydyn nhw; neu os mai'r Llywodraeth a phobl ifanc ydyn nhw.
- **cyfleoedd –** i newid agweddau, datblygu sgiliau newydd a dysgu sut i barchu eraill.



**Gwybodaeth**
fe ddylai fod yn hawdd i'w deall.



**Eich Dewis Chi**
fe ddylai fod yna ddigon o wybodaeth ac amser i ddewis.



**Dim Camwahaniaethu**
fe ddylai pob plentyn a pherson ifanc gael yr un cyfle i chwarae rhan.



**Parch**
fe ddylai'ch barn gael ei chymryd o ddifrif.



**Bod o ryw fudd i chi**
fe ddylech chi fwynhau'r profiad.



**Adborth**
fe ddylech chi gael gwybod am y gwahaniaeth y mae'ch barn wedi'i wneud.



**Gwella ein ffordd o weithio**
fe ddylai oedolion ofyn i chi sut gallan nhw wella'u ffordd o weithio yn y dyfodol.


# Beth y mae hyn yn ei olygu
# i blant

Rydyn ni eisiau i bawb fwynhau eu hawliau felly rydyn ni wedi rhoi pethau ar waith, fel:



### Cynghorau Ysgol

Mae'n rhaid i bob ysgol fod â chyngor ysgol fel bod disgyblion yn cael llais mewn rhedeg eu hysgol.



### Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r Comisiynydd yn eiriolwr dros blant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.
Mae yna fwy o wybodaeth yma: www.complantcymru.org.uk




### Nyrsys Ysgol

Mae'n rhaid i bob ysgol uwchradd yng Nghymru fod â nyrs.




### Ardaloedd Chwarae

Mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru wneud yn siŵr bod yna ddigon o leoedd i chwarae.




### Nofio Am Ddim

Os ydych chi'n 16 oed neu'n iau, gallwch chi nofio am ddim ym mhwll nofio'ch Awdurdod Lleol.



### Cwnselwyr

Mae'n rhaid i bob ysgol uwchradd fod â chwnselwyr i helpu disgyblion i gael iechyd meddwl da.




### Strategaeth Tlodi Plant

Mae hon yn helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni i gefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi.




### Addysg Gymraeg

Mae cefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn Ysgolion yn golygu bod addysg ar gael i chi yn eich dewis iaith.



### Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd

Mae pob plentyn sy'n mynychu ysgol gynradd yng Nghymru'n gallu mwynhau brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd.




### Teithio am Brisiau Is

Mae ein cynllun teithio ar y bws am brisiau is i bobl ifanc yn eu helpu nhw i fanteisio ar wasanaethau unrhyw le yng Nghymru.



### Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

Diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn y gyfraith gyffredin.




### Caiff pobl ifanc 16-17 mlwydd oed bleidleisio

Yn 2019 fe wnaeth Senedd Cymru ddeddfu i roi'r hawl i bobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed bleidleisio yn etholiadau Cymru.

# Cwestiynau Cyffredin

### Pam y mae angen CCUHP arnon ni?

- Mae gan blant a phobl ifanc yr un hawliau dynol â phawb arall. Ond, oherwydd eu bod nhw'n ifanc ac yn agored i niwed, mae'r Confensiwn yn rhoi hawliau ychwanegol iddyn nhw i'w diogelu a sicrhau nad yw unrhyw un yn camwahaniaethu yn eu herbyn.
- Mae plant a phobl ifanc yn arbennig o agored i'r amgylchedd a'r amodau cyffredin y maen nhw'n byw ynddyn nhw, ac maen nhw'n fwy agored i niwed na grwpiau eraill mewn cymdeithas.
- Gallan nhw fod yn 'anweladwy' os nad yw oedolion yn darparu llwybrau iddyn nhw eu defnyddio i ddweud eu dweud.
- Nid yw pobl bob amser wedi derbyn bod gan blant a phobl ifanc hawliau – yn aml maen nhw a'u hawliau'n cael eu gweld fel 'eiddo' i'w rhieni.

### Pam y mae CCUHP mor bwysig?

- Mae'n rhoi hawliau dynol ychwanegol i blant a phobl ifanc. Dylai'r hawliau hyn fod wrth galon llywodraethu.
- Mae'n berthnasol i bawb. Ystyrir bod pob un o'r hawliau yr un mor bwysig â'i gilydd, ac na ellir eu cymryd oddi wrth rywun.
- Mae'n pwysleisio bod angen diogelu plant a phobl ifanc ac y dylid eu grymuso fel dinasyddion nawr.
- Mae'n gymwys bob amser i bob plentyn a pherson ifanc ym mhob sefyllfa.

### Beth yw Hawl?

Mae hawl yn rhywbeth y mae gan blant a phobl ifanc hawl i'w gael; nid oes yn rhaid ennill hawliau, ac maen nhw'n perthyn i bob plentyn a pherson ifanc o'r adeg y maen nhw'n cael eu geni.

### Beth yw Hawliau Dynol?

Gwarantau cyfreithiol cyffredinol yw Hawliau Dynol. Maen nhw'n diogelu unigolion a grwpiau rhag gweithredoedd (tarfu ar) a hepgoriadau (methu) sy'n effeithio ar eu rhyddid a'u hurddas fel pobl.

### Beth y mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc yng Nghymru?

- Mae yna gyfraith sy'n dweud bod yn rhaid i bob un o Weinidogion Cymru feddwl am hawliau plant.
- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru geisio gwneud pawb yng Nghymru'n ymwybodol o CCUHP.
- Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Hawliau Plant sy'n esbonio sut maen nhw'n meddwl am hawliau plant.

I gael gwybod mwy, darllenwch ein taflen **Hawliau Plant yng Nghymru**.

# Be’ amdani?
# Ystyriwch hawliau plant!

### Hawliau Plant Cymru

Mae’r wefan yma’n dod â gwahanol gyfleoedd i chwarae rhan at ei gilydd. Mae ganddi hefyd wybodaeth, hyfforddiant, adnoddau a chysylltiadau i helpu plant, pobl ifanc a sefydliadau ledled Cymru.

www.llyw.cymru/hawliau-plant



### Yn eich ardal leol

Mae’n rhaid i Awdurdodau Lleol, dan y gyfraith, roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae rhan a chael llais. Mae’n rhaid iddyn nhw hefyd roi gwybod iddyn nhw lle a sut i chwarae rhan. Gallwch chi gysylltu â’ch Cyngor Lleol a gofyn iddyn nhw sut gallwch chi ddod i chwarae rhan.

### Senedd Cymru

Pobl sy’n cael eu pleidleisio o bob rhan o Gymru, o wahanol bleidiau gwleidyddol, yw Aelodau’r Senedd. Maen nhw’n gwirio ac yn holi Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut rydyn ni’n meddwl am eich hawliau ac yn gofalu am bob plentyn a pherson ifanc.

www.senedd.cymru

### Cymru Ifanc

Mae Cymru Ifanc yn gwneud yn siŵr bod yna ffyrdd gwahanol i blant a phobl ifanc ddweud eu dweud ar faterion sy’n bwysig iddyn nhw, a bod y llywodraeth ac eraill yn gwrando arnyn nhw.

www.cymruifanc.cymru

### Meic

Gwasanaeth eiriolaeth a gwybodaeth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yw Meic. Mae’r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac mae modd cysylltu ag ef 24/7 dros y ffôn, trwy negeseuon gwib neu negeseuon testun. Mae yno i wrando, i roi gwybodaeth ac i gefnogi.

www.meiccymru.org/cy

### Comisiynydd Plant Cymru

Mae Sally Holland yn gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae hi a’i thîm yn eu cefnogi nhw i gael gwybod am hawliau plant, yn gwrando i gael gwybod beth sy’n bwysig iddyn nhw, yn rhoi cyngor a chymorth os ydyn nhw’n meddwl eu bod nhw wedi’u trin yn annheg, ac yn siarad ar eu rhan pan mae materion pwysig yn codi.

www.complantcymru.org.uk

I ddarganfod mwy am eich hawliau ewch i:
**llyw.cymru/hawliau-plant**

## I gysylltu â ni:

e-bost: hawliauplant@llyw.cymru

@C_R_Wales